# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dafydd Rhys Thomas**
**Parti:** Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Ynys Gybi

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Safonau | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cyd-bwyllgor Cymru | Cyd-Bwyllgor Cymru |
| - Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd | Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd |
| - Llywodraethwr / Ysgol Cybi | Ysgol Cybi |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Morswyn, Caergybi | |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith  ac yn dal y portffolio corfforaethol ac mae rhai o'm cyfrifoldebau yn faterion cyfreithiol, y cyfansoddiad, technoleg gwybodaeth, cyfathrebu, adnoddau dynol, trawsnewid a moderneiddio.

Mae'n her ac yn anrhydedd bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisi ar gyfer y Cyngor Sîr Ynys Môn.

Yn ogystal â bod yn aelod o Gyngor Sir Ynys Môn, rwyf hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Trearddur ac wedi mynychu'r cyfan o'u cyfarfodydd misol. Er nad wyf yn aelod o Gyngor Cymuned Rhoscolyn, rwyf wedi bod yn mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd fel gwestai. Rwy'n cynrychioli'r Cyngor Sir ar gyrff llywodraethu Ysgol Gybi ac Ysgol Gymraeg Morswyn. Rwyf hefyd yn aelod o Grŵp Cydranddeiliaid Horizon Wylfa Newydd ac wedi mynychu'r cyfarfodydd hynny yn rheolaidd.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n cymryd diddordeb ym mhob agwedd ar fywyd y ward ac yn fodlon bob amser i gyfarfod naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol gyda'r etholwyr i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder, er enghraifft: sbwriel, gwastraff, baw ci, materion cynllunio a phriffyrdd, llifogydd, hawliau tramwy, mwynderau ac ati ac rwyf ar gael bob amser dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Rwy'n ceisio datrys y materion fy hun neu eu cyfeirio i'r adrannau priodol ar ran yr etholwyr ac rwy'n ddiolchgar iawn i swyddogion y Cyngor am eu help a'u cefnogaeth i ddelio gyda materion a'u datrys.

Rwyf yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau glanhau cymunedol ac yn canmol yr ysbryd cymunedol yn enwedig o ran y gwaith a wnaed i wella edrychiad y pentref, torri llystyfiant, codi sbwriel, plannu ac ati ac mae'n ffordd ardderchog o ddod â'r gymuned at ei gilydd i gyflawni rhywbeth positif.

Rwy'n ddiolchgar iawn fy mod wedi cael fy ail-ethol i gynrychioli ward Cybi ym Mai 2017. Mae'n anrhydedd fawr i mi gael cynrychioli'r ardal arbennig hon ac rwy'n gwneud fy ngorau i gynrychioli'r ardal gyfan o Roscolyn i Fynydd Twr.

Mae'r ardal yn ddaearyddol amrywiol ac mae ynddi ardaloedd llewyrchus iawn ond rwyf hefyd yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar ôl cael fy ethol, bûm yn ddigon ffodus i gael swydd ar y pwyllgor gwaith gyda chyfrifoldeb am faterion Corfforaethol ac mae hyn wedi rhoi'r cyfle i mi ddysgu pa mor gymhleth yw'r Cyngor a'r modd y mae'r broses ddemocrataidd yn gweithio.

Rydym ni fel Cyngor yn wynebu heriau anferthol ym mhob maes ond yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac Addysg ac rydym yn ceisio gwella addysg a thrawsnewid y gwasanaeth drwy gyflwyno ysgolion 21ain ganrif.

Mae sawl her arall yn erbyn cefndir o'r llymder mwyaf difrifol mewn cof.

Yr wyf wrth gwrs â diddordeb brwd yn natblygiad economaidd Ynys Môn ac Ynys Gybi.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi a materion peilonau'r National Grid, Orthios a datblygiadau yn safle Alwminiwm Môn, porthladd Caergybi, Bluestone a datblygiad Morlais yn y môr.

Rwyf wedi gweithio gyda 'Surfers yn erbyn Carthffosiaeth' (Surfers Against Sewage) y Cyngor a'r gymuned i hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu plastig. Rwy'n falch iawn mai Ynys Mon fu'r awdurdod lleol cyntaf ym Mhrydain i ennill statws di blastig.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel un sydd wedi derbyn triniaeth am ganser, rwy'n aelod o Fforwm Canser Gogledd Cymru sy'n rhoi pwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Rwyf hefyd yn aelod o banel cyllid Elusennol Ward Alaw.

Rwy'n gweithio gydag ymgynghorwyr a staff yn Ysbyty Gwynedd i wella profiadau i gleifion a diogelwch y cleifion yn enwedig o safbwynt ffactorau dynol.

Rwyf hefyd wedi cynorthwyo i ddatblygu 'ap' i help cleifion canser gyda'u symptomau - caiff ei gyllido gan Tenovus.

Mae gennym dirwedd a morlun unigryw iawn yma yn Ynys Gybi ac yn wir ar hyd a lled Ynys Môn ac rwy'n awyddus iawn i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd ac rwyf wedi cyflwyno cynnig i'r Cyngor Sir Llawn y dylai Ynys Môn fod yn sir ddi-blastig. Rwy'n gweithio gyda 'Surfers Against Sewage' a'r gymuned mewn ymdrech i hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu plastigau. Byddai'n wych gweld Ynys Môn fel y Sir 'ddi-blastig' gyntaf yng Nghymru.

Mae wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd i gael cynrychioli pobl ward Cybi ac rwyf wedi mwynhau'r 12 mis diwethaf yn fawr iawn ac edrychaf ymlaen at y dyfodol gyda brwdfrydedd ac optimistiaeth, serch yr heriau sydd o'n blaenau.

Hoffwn hefyd ddiolch i fy nghyd-Gynghorwyr, Swyddogion y Cyngor, gweithwyr y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cyngor ac wrth gwrs fy nghyd-Aelodau sy'n cynrychioli Ynys Gybi sef Trefor a John Arwel a phobl Ynys Gybi am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch ac rwy'n pwysleisio fy mod ar gael bob amser i'w cynghori a'u help mewn unrhyw fodd.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** | **Gorffennaf 2020** |